PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1C

ADOLYGIAD CYN GWRANDAWIAD

Cyflwyniad

1. Gall Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) benderfynu bod rhai achosion angen adolygiad cyn gwrandawiad er mwyn cael eglurdeb o'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y gwrandawiad. Gall enghreifftiau o amgylchiadau lle bydd angen adolygiad cyn gwrandawiad gynnwys;

   - materion cymhleth sy'n ymwneud â phrisio hereditament mawr;
   - methiant mewn trafodaethau rhwng y partïon;
   - methu â chyfnewid tystiolaeth neu gytuno ar ffeithiau;
   - honiadau yn erbyn gonestrwydd un o'r partïon;
   - cyflwyno deunydd sensitif neu gyfrinachol;
   - ceisiadau dro ar ôl tro am ohiriadau; neu
   - unrhyw ffactor arall sy'n gofyn am gyhoeddi cyfarwyddiadau penodol.

   Nid yw'r rhestr uchod yn un gynhwysfawr.

Deddfwriaeth

- Rheoliad 26 o'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 21 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)

2. Caiff un o Gadeiryddion TPC, ar gais parti, neu ar eu cynnig eu hunain, orchymyn cynnal adolygiad cyn gwrandawiad. Gellir gwneud hyn ar unrhyw adeg, gyda phedair wythnos o rybudd o'r adolygiad cyn gwrandawiad yn cael ei roi i bob parti.

3. Wedi i'r adolygiad cyn gwrandawiad ddigwydd bydd y Cadeirydd yn penderfynu pa gyfarwyddiadau y dylid eu cyhoeddi i hwyluso gwrandawiad sylweddol yr apêl.